# PWYLLGOR SAFONAU, 16.01.12

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Keith Greenly-Jones.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis Evans, Mr Malcolm Jones a Mr Gwyn Williams.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Sion Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorydd Margaret Griffith (Aelod Etholedig) a Mr Sam Soysa (Aelod Annibynnol).

## 1. PROFEDIGAETHAU

Cydymdeimlwyd â Mr Gwyn Williams ar golli ei dad yn ddiweddar.

Nodwyd hefyd bod Mr Sam Soysa wedi colli ei fam.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Mr Gwyn Williams fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen – Honiadau yn erbyn Aelodau – oherwydd ei fod yn gefnder i'r Cynghorydd Aeron M.Jones, oedd yn cael ei grybwyll yn yr adroddiad.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Ebrill, 16 Mehefin (cyfarfod arbennig), 11 Gorffennaf (cyfarfod arbennig) a 30 Medi (cyfarfod arbennig) fel rhai cywir.

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2010/11

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd sylwadau a chymeradwyaeth y pwyllgor i'r drafft o ail Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau am y cyfnod o Hydref 2010 hyd at ddiwedd Medi 2011.

Nododd y Swyddog Monitro fod cyfnod dau o'r aelodau annibynnol ar y pwyllgor ar fin dod i ben a bod angen i'r Cyngor gychwyn ar y broses o chwilio am aelodau newydd.

Ychwanegodd y Swyddog Priodoldeb fod tymor yr aelodau etholedig a thymor cyntaf yr aelod cyngor cymuned hefyd yn dirwyn i ben.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Swyddog Priodoldeb fod cyfnod yr adroddiad yn rhedeg o Hydref i ddiwedd Medi oherwydd y paratowyd yr adroddiad blynyddol cyntaf yr adeg honno o'r flwyddyn, ond gellid newid yr amseriad, os mai dyma oedd dymuniad yr aelodau. Awgrymwyd y dylai'r cyfnod redeg o Fai i Fai i gyd-fynd â'r flwyddyn gyngor a bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Swyddog Monitro fod y Cynghorydd Steven Churchman wedi'i gynnwys yn yr adroddiad oherwydd y bu'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau am ran o'r flwyddyn dan sylw cyn i'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams gael ei benodi i gymryd ei le ar y pwyllgor ym Mai 2011. Nodwyd nad oedd y fersiwn Saesneg o'r adroddiad yn cyfeirio at y ffaith bod y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn aelod o'r pwyllgor ers Mai 2011 yn unig a chytunodd y Swyddog Priodoldeb i gywiro hyn.

Nodwyd hefyd bod angen cywiro'r gair '*Council*' yn y bedwaredd linell o'r paragraff cyntaf ar dudalen 6 o'r adroddiad i ddarllen '*Councils*'.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cymeradwyo'r drafft o Adroddiad Blynyddol 2010/11 yn ddarostyngedig i'r mân gywiriadau a nodwyd.**

**(b) Y dylai cyfnod yr adroddiad redeg o Fai i Fai i gyd-fynd â'r flwyddyn gyngor a bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf.**

## 5. ADOLYGU GWEITHDREFN GWRANDAWIADAU'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar y broses o gynnal gwrandawiadau ac i ystyried a chymeradwyo drafft o weithdrefn ddiwygiedig.

Nododd y Cadeirydd fod gwrandawiad diweddar y Pwyllgor Safonau wedi amlygu pa mor anodd oedd rhoi bys ar yr union ffeithiau sy'n destun anghydfod. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Priodoldeb y bwriedid i'r cyfarfodydd ymlaen llaw gyfarch hyn.

Croesawyd y bwriad i ddosbarthu crynodeb o drefn y gwrandawiad i bawb ymlaen llaw.

Awgrymwyd y dylai cam 9 o'r drefn gwrandawiadau, sef cynnal cyfarfod rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a'r Swyddog Cynghori, ddigwydd yn gynharach yn y broses. Awgrymwyd hefyd y gellid ychwanegu cymal bod modd cynnal cyfarfodydd ar unrhyw gam o'r broses, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drafft o Weithdrefn Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau yn ddarostyngedig i gynnal cam 9 yn gynharach yn y broses ac ychwanegu cymal bod modd cynnal cyfarfodydd ar unrhyw gam o'r broses, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau.**

## 6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu aelodau'r pwyllgor o'r datblygiadau, ers ei hadroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau.

Gan gyfeirio at yr achos fu gerbron y Pwyllgor Safonau ar 30 Medi, 2011, adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn llythyr gan Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Dyfed Edwards, cyn y Nadolig yn amgáu copi o e-bost a dderbyniodd gan y Cynghorydd Aeron Maldwyn

Jones mewn ymateb i gais y Pwyllgor Safonau iddo ymddiheuro i'r Cynghorydd Dyfed Edwards am y sylwadau yn y blog. Darllenodd y Cadeirydd gynnwys e-bost y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones yn uchel i'r aelodau gan nodi fod y Cynghorydd Dyfed Edwards yn gofyn i'r pwyllgor farnu a oedd y geiriad hwn yn cydymffurfio â phenderfyniad y Pwyllgor Safonau.

O ran y ffordd ymlaen, eglurodd y Swyddog Monitro, er nad oedd gan y pwyllgor bwerau ffurfiol i roi cosb ychwanegol na chynnal ail wrandawiad, bod dyletswydd ar y Pwyllgor Safonau i gynnal a hyrwyddo safon uchel o ymddygiad ymysg aelodau etholedig ac i sicrhau nad oedd ei benderfyniadau yn cael eu hanwybyddu. Gan hynny, dylai'r pwyllgor roi barn ar y mater, a phe ystyrid nad oedd eu penderfyniad wedi'i gyflawni, dylid mynegi hynny'n glir wrth yr aelod.

Mynegodd aelodau'r farn bod yr ymddiheuriad yn un gwan a bod yr aelod yn parhau i fynd dros yr un tir. Nid oedd teitl yr e-bost, sef "*Par: Hedfan i Gaerdydd*" yn cyfeirio at wrandawiad y Pwyllgor Safonau ac 'roedd datganiad yr aelod, ar ddiwedd ei e-bost, ei fod yn hyderu y byddai swyddogion ac aelodau etholedig yn teithio yn y ffordd fwyaf cost effeithiol i drethdalwyr y sir o hyn ymlaen yn tanseilio'r ffaith bod y Cyngor eisoes yn dilyn y polisi hwnnw.

Awgrymwyd efallai y dylai'r pwyllgor fod wedi bod yn fwy pendant ynglŷn â'r hyn a ddisgwylid fel ymddiheuriad, ond pwysleisiwyd bod y cais i'r aelod ymddiheuro i'r Cynghorydd Dyfed Edwards am y sylwadau yn y blog wedi bod yn ddigon clir. Fodd bynnag, nid oedd yr aelod wedi ymddiheuro am y sylwadau yn y blog.

Nodwyd y dylai'r ohebiaeth hon fod wedi'i chyflwyno i'r aelodau ymlaen llaw fel y gallent fod wedi cael cyfle i gnoi cil dros y mater cyn dod i'r cyfarfod. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro, er bod yna eitem gysylltiedig â hyn ar y rhaglen, ei bod yn derbyn y byddai wedi bod yn haws i'r aelodau feddwl am y mater pe baent wedi gwybod am hyn ymlaen llaw.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi cynnwys yr adroddiad ysgrifenedig.**

**(b) Anfon llythyr yn enw Cadeirydd y Pwyllgor Safonau at y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones, gyda chopi i'r Cynghorydd Dyfed Edwards, yn datgan siomedigaeth y pwyllgor gyda diffyg cryfder yr ymddiheuriad gan nad yw'n cyfleu'r neges a oedd yn ddisgwyliedig gan y Pwyllgor Safonau.**

## 7. HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno'r trefniadau ar gyfer hyfforddi cynghorwyr ar y Côd Ymddygiad yn dilyn etholiadau 2012 ac yn gwahodd y pwyllgor i gyflwyno unrhyw syniadau ychwanegol ar raglen hyfforddi ar y Côd Ymddygiad.

Awgrymwyd y dylai'r hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad fod yn orfodol ar gyfer pob aelod a etholir o'r newydd ar y Cyngor Sir ym mis Mai a dylid ei gynnig hefyd fel cwrs gloywi i unrhyw aelod arall sy'n dymuno hynny.

Nodwyd pryder nad yw'r aelodau hynny sydd wir angen yr hyfforddiant yn mynychu'r sesiynau hyfforddi a'r her oedd cael y neges hon drosodd, yn arbennig i aelodau'r cynghorau cymuned. Hefyd, wrth i gynghorau cymuned dderbyn mwy o gyfrifoldebau, 'roedd yn bwysicach fyth bod eu haelodau yn derbyn yr hyfforddiant hwn. Gan hynny, awgrymwyd y dylid argymell i'r cynghorau cymuned y dylai pob aelod newydd gael y cyfle

i dderbyn hyfforddiant ar y Côd gan geisio annog yr aelodau presennol i gymryd hyn i fyny hefyd.

Awgrymwyd y dylai'r hyfforddiant fod yn orfodol ar gyfer clercod cynghorau cymuned hefyd fel eu bod yn gymwys i gynghori eu cynghorau ar faterion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro y gellid trefnu cwrs penodol ar gyfer clercod.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi a derbyn y trefniadau ar gyfer hyfforddi cynghorwyr ar y Côd Ymddygiad yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai gan sicrhau bod yr hyfforddiant yn orfodol ar gyfer pob aelod a etholir o'r newydd ar y Cyngor Sir a'i fod yn cael ei gynnig fel cwrs gloywi i unrhyw aelod arall sy'n dymuno hynny.**

**(b) Argymell i'r cynghorau cymuned y dylai pob aelod newydd gael y cyfle i dderbyn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad gan geisio annog yr aelodau presennol i gymryd hyn i fyny hefyd.**

**(c) Nodi y dylai'r hyfforddiant fod yn cael ei gynnig i glercod cynghorau cymuned hefyd fel eu bod yn gymwys i gynghori eu cynghorau ar faterion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad.**

## 8. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi cofnodion cyfarfodydd o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 15 Ebrill a 10 Mehefin, 2011. Un unol â dymuniad y pwyllgor hwn, roedd llythyr Cadeirydd Pwyllgorau Safonau Powys, parthed arfer yr Ombwdsmon o gau achosion lle mae'n credu na fyddai pwyllgor safonau yn gosod unrhyw gosb, wedi'i osod gerbron cyfarfod pellach o'r Fforwm ar 1 Tachwedd, 2011, ond bu'n rhaid gohirio'r cyfarfod hwnnw gan nad oedd yna ddigon o gynrychiolwyr yn bresennol i gynrychioli barn y Fforwm.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 9. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2011

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno gwybodaeth am y gynhadledd ac yn ceisio barn y pwyllgor am drefniadau'r gynhadledd nesaf.

Gan nad oedd yr un o gynghorau'r Gogledd wedi trefnu cynhadledd hyd yn hyn, awgrymwyd y gallai'r Cyngor hwn wneud hynny ar y cyd â chynghorau eraill Gogledd Cymru.

Awgrymwyd hefyd y byddai trefnu'r gynhadledd yng ngwanwyn 2013, yn hytrach nag yn hydref eleni, yn rhoi cyfle i bwyllgorau safonau ennill profiad yn dilyn rhywfaint o newid yn eu haelodaeth yn sgil yr etholiadau ym mis Mai. Byddai hefyd yn rhoi cyfnod eithaf o seibiant rhwng cynadleddau.

O ran lleoliad, eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd yna unrhyw reswm pam na allai cynghorau'r Gogledd drefnu cynhadledd yn y Canolbarth, pe teimlid bod hynny'n fwy hwylus i bobl sy'n teithio o bob cwr o Gymru.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Argymell i Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru y dylai cynghorau'r Gogledd drefnu'r Gynhadledd Safonau nesaf yng Ngogledd Cymru yng ngwanwyn 2013.**

## 10. DATBLYGIADAU DIWEDDAR YN Y FFRAMWAITH SAFONAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno gwybodaeth am rai datblygiadau diweddar yn y fframwaith safonau mewn perthynas â pharagraff 10(2)(b) o'r Côd Ymddygiad, trefn datrys anghydfod lleol, ymchwiliadau lleol a lwfansau aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2010/11

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi'r rhannau hynny o adroddiad blynyddol 2010/11 yr Ombwdsmon sy'n berthnasol i gwynion côd ymddygiad.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2010/11

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi adroddiad blynyddol y panel ar gyfer y flwyddyn 2010/11.

Tynnwyd sylw at y diffyg cynrychiolwyr o Ogledd Cymru ar y panel.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.10pm.